

FFURFLEN 6

Ffurflen Ganiatâd a Gwybodaeth (person ifanc dros 11 oed) - yn cynnwys Caniatâd ar gyfer Cyfathrebu'n Electronig

Enw'r Lle Addoli / Sefydliad:

Grŵp (gan gynnwys diwrnod/amser y gweithgaredd):

Enw llawn y plentyn / person ifanc:

Dyddiad Geni: ___/___/___

Cyfeiriad:

Enw'r Meddyg Teulu: Teleffôn:

Cyfeiriad:

Dyddiad y brechiad gwrth-tetanus olaf, os gwyddoch hynny:

Nodwch unrhyw feddyginiaeth a gymerir yn rheolaidd, unrhyw anhawster meddygol (e.e. asthma, epilepsi, alergedd, anghenion deiet etc.) neu anabledd a allai effeithio ar weithgarwch arferol y plentyn. Hefyd, nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai gynorthwyo'r arweinydd o ran cynnal a gofalu am y plentyn yn effeithiol.

Cytunaf i roi gwybod i arweinwyr y grŵp, mewn ysgrifen, os yw'r manylion uchod yn newid.

Enw'r rhieni / gofalyddion:

Teleffôn: Dydd..... Nos

Rhiant/Gofalydd Ffôn symudol 1..... Ffôn symudol 2.....

Enw cyswllt ychwanegol (e.e Nain/ Mam-gu, Taid/ Tad-cu neu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant)

Enw:..... Teleffôn:

Os nad ydych yn meddu ar gyfrifoldeb rhiant (e.e. chi yw'r gofalydd maeth neu Nain/Taid y plentyn) nodwch fanylion y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant:

Enw(au): ffôn:

Cyfeiriad:

Rwy'n cytuno i (enw'r person ifanc)

gymryd rhan yng ngweithgareddau arferol y grŵp.

Rwy'n deall y bydd angen caniatâd ychwanegol ar gyfer rhai gweithgareddau megis nofio a digwyddiadau sy'n gorffen yn hwyrach nag amser arferol y grŵp. Rwy'n deall y bydd y plentyn dan ofal a rheolaeth arweinydd y grŵp ac/neu oedolion eraill a gymeradwyir gan y lle addoli/sefydliad. Deallaf hefyd y bydd y staff sydd yng ngofal y grŵp yn gofalu am y plant cymaint â phosib, ac o fewn rheswm, ond ni fyddant o reidrwydd yn gyfrifol am unrhyw golled, difrod neu niwed a ddioddefir gan fy mhlentyn yn ystod y gweithgaredd, neu o ganlyniad i'r gweithgaredd.

Mewn argyfwng, rwy'n caniatáu i'm plentyn gael triniaeth feddygol.

Pan fo angen cyngor neu driniaeth feddygol, gwneir pob ymdrech i gael cymorth Meddyg Teulu neu Adran Ddamweiniau ac Argyfwng mewn ysbyty. Yn ôl Deddf Plant 1989 mae modd i feddyg drin plentyn trwy wneud 'yr hyn sy'n resymol yn yr amgylchiadau sydd ohoni er mwyn diogelu neu wella lles y plentyn'. Serch hynny, byddwn yn cysylltu â'r rhiant/gofalydd cyn gynted ag y bo modd er mwyn rhoi gwybod beth sy'n digwydd.

Cludiant

Oni bai fod trefniadau penodol wedi eu cytuno, ni fydd yr arweinwyr yn gyfrifol am gludo'r bobl ifanc i weithgareddau'r grŵp ac oddi yno. Os yw rhieni'n dymuno rhannu'r cludiant, trefniadau preifat ymhlith ei gilydd fydd hynny. Mewn argyfwng, neu er mwyn cael cymorth feddygol, gallai person ifanc gael ei g/chludo yng ngherbyd arweinydd neu oedolyn cymeradwy arall.

Adrodd am Ddamwain/Digwyddiad: Nodir manylion unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad yng Nghofnod Damweiniau/Digwyddiadau yr eglwys, a bydd y mater yn cael ei drafod gyda'r rhieni/ gofalyddion cyn gynted ag y bo modd.

Llofnod: Dyddiad:

Adran Ddewisol:

Caniatâd ar gyfer Cyfathrebu'n Electronig gyda Phlant a Phobl ifanc

Mae llawer o blant a phobl ifanc yn cyfathrebu trwy gyfryngau electronig, megis ffôn symudol, e-bost a chyfryngau Rhyngrwyd – gall hynny olygu bod trefniadau llawer cyflymach a mwy hwylus.

Nodwch na fyddwn yn defnyddio Facebook i gysylltu gyda phlant dan 13 oed, oherwydd nid yw Facebook wedi ei fwriadu ar gyfer y plant hynny.

A ydych yn caniatáu i weithiwr ieuencid gyfathrebu gyda'ch plentyn trwy gyfrwng y dulliau hynny?

Ni fydd eich plentyn dan anfantais os na fyddwch yn rhoi caniatâd, oherwydd bydd yr arweinwyr yn cysylltu gyda chi i wneud trefniadau eraill.

Rwy'n caniatáu i'm plentyn a'r gweithwyr ieuencid gyfathrebu gyda'i gilydd trwy gyfrwng ffon symudol / e-bost / rhyngrwyd ar gyfer trefnu gweithgareddau plant / pobl ifanc

Neu

Nid wyf yn caniatáu i'm plentyn a'r gweithwyr ieuencid gyfathrebu gyda'i gilydd trwy gyfrwng ffon symudol / e-bost / rhyngrwyd ar gyfer trefnu gweithgareddau plant / pobl ifanc.

(Dilëwch y frawddeg briodol, ac unrhyw fodd cyfathrebu nad ydych yn fodlon ei ganiatáu).

Llofnod: Dyddiad: